

Prifysgol Caerdydd

Cynllun Gweithredu Adolygiad Gwella Ansawdd.

Mae'r Adolygiad Gwella Ansawdd (QER) yn cael ei gynnal bob chwe blynedd, a thrwy'r dull hwn y caiff darparwyr addysg uwch yng Nghymru eu hadolygu gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) o dan Fframwaith Asesu Ansawdd (QAF) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).

Ymwelodd y tîm adolygu â'r Brifysgol ym misoedd Chwefror a Mawrth 2020 i gwrdd ag aelodau staff, myfyrwyr, llywodraethwyr a darparwyr lleoliadau.

Cadarnhaodd yr adolygiad y canlynol:

- Mae Prifysgol Caerdydd **yn bodloni** gofynion Rhan 1 Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol;
- Mae Prifysgol Caerdydd **yn bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru;

sy'n golygu bod gan y Brifysgol drefniadau cadarn ar gyfer sicrhau safonau academiaidd, rheoli ansawdd academiaidd a gwella ansawdd profiadau myfyrwyr.

Ni chyflwynodd y tîm adolygu unrhyw argymhellion.

Mae'r cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu ar y cyd rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Rhan annatod o'r broses QER yw datblygu cynllun gweithredu ar ôl yr ymweliad adolygu.

Y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academiaidd (ASQC) fydd yn monitro sut y rhoddir y cynllun gweithredu ar waith a bydd cynnydd yn erbyn gweithredoedd yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol a gyflwynir i'r Senedd a'r Cyngor.

Canmoliaeth:

Canmoliaeth	Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Canlyniad	Dyddiad
Cyfleoedd a ddarperir gan Raglen Cyfleoedd Ymchwil Israddedig Caerdydd (CUROP) i fyfyrwyr ymgysylltu â gweithgareddau ymchwil er mwyn gwella eu dysgu a'u cyfleoedd gyrfaol yn y dyfodol.	Adolygu CUROP i wneud yn siŵr bod myfyrwyr israddedig yn parhau i gael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil i gefnogi eu dysgu a'u rhagolygon gyrfa yn y dyfodol.	Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr)	Cyfleoedd i fyfyrwyr israddedig gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil i gefnogi eu dysgu a chynnal a gwella rhagolygon gyrfa yn y dyfodol.	Gorffennaf 2021

Cadarnhad:

Cadarnhad	Cam gweithredu	Cyfrifoldeb	Canlyniad	Dyddiad
Y camau sy'n cael eu cymryd i weithredu proses fonitro flynyddol ddiwygiedig sy'n galluogi dull mwy ymatebol o ran addasu a gwella profiad myfyrwyr.	Gweithrediad yr Adolygiad a Gwelliant Blynyddol (ARE) yn 2019/20 i'w adolygu gan y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd (ASQC) erbyn Mehefin 2020. Bydd gweithrediad ARE yn 2020/21 i'w adolygu gan ASQC erbyn Mehefin 2021.	Rhag Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr)	Mae ARE yn cynnig proses fonitro flynyddol effeithiol, effeithlon ac ymatebol er mwyn: datblygu cynlluniau gweithredu i wella dysgu ac addysgu a phrofiad y myfyrwr; a rhannu a chydabod arfer da.	Gorffennaf 2021